# Pwyllgor Rhanbarth y De-orllewin

**Adroddiad ar Ystyriaeth y Pwyllgor o broses**

**Adolygu Gweithdrefn y Cynulliad**

**Dydd Gwener 11 Mai 2001**

**Cyflwyniad**

Roedd y Pwyllgor wedi gwahodd sefydliadau ac unigolion, gan gynnwys nifer a oedd wedi bod yn cymryd rhan yng ngwaith y Pwyllgor, i fynegi'u barn ar y materion yr aethpwyd i'r afael â hwy wrth Adolygu Gweithdrefn y Cynulliad er mwyn i'r pwyllgor eu trafod. O ganlyniad i'r ymatebion a gafwyd i'r gwahoddiad, gofynnwyd i'r canlynol fynychu gan eu bod yn cynrychioli amrediad o fuddiannau:

Dinas a Sir Abertawe, *Louise Fleet, Adran y Prif Weithredwr*

Cyngor Gofal Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot, *Gaynor Richards, Cyfarwyddwr*

Fforwm Economaidd De Orllewin Cymru (SWWEF), *Richard Crawshaw, Hwylusydd*

Kathryn Hollingsworth, Ysgol y Gyfraith, Caerdydd.

Roedd Dinas a Sir Abertawe a Kathryn Hollingsworth wedi cyflwyno papurau i'r Adolygiad. Cyflwynodd Fforwm Economaidd De Orllewin Cymru bapur i'r Pwyllgor. (insert hyperlinks and references)

Gofynnodd Cyngor Castell-nedd Port Talbot i'r Pwyllgor ystyried y papur yr oedd wedi'i gyflwyno i'r Adolygiad, er nad oedd yr Awdurdod am gyflwyno'i sylwadau ar lafar i'r Pwyllgor. (Insert hyperlink and references)

Roedd y cyflwyniadau a'r trafodaethau yn canolbwyntio ar ddwy brif thema:

- Perthynas y Cynulliad Cenedlaethol â chyrff allanol; a
- Rôl y pwyllgorau rhanbarth.

**Perthynas y Cynulliad Cenedlaethol â Chyrff Allanol**

Croesawodd **Gaynor Richards** y modd yr oedd y Cynulliad yn datblygu partneriaethau â'r sectorau gwirfoddol, cyhoeddus, a phreifat. Roedd perthynas dda rhwng ei sefydliad hi ac Aelodau lleol y Cynulliad a chanmolodd eu hymrwymiad a pha mor hawdd ydoedd i gysylltu â hwy. Roedd perthynas bositif hefyd rhwng y sefydliad â Gweinidogion. Er hynny, roedd modd gwella ar hyn.

Golyga gweithio mewn partneriaeth fod yn rhaid i bawb gytuno â'i gilydd, yn enwedig ynghylch amser. Yn aml roedd hi'n anodd i'r mudiadau ambarél yn y sector

gwirfoddol ymgynghori â chyrff cyfansoddol ac ymateb i ymarferion ymgynghori o fewn y cyfnod o wyth wythnos a ganiateir. Hoffai'r sector gwirfoddol weld y cyfnod yn cael ei ymestyn i 12 wythnos.

I'r gwrthwyneb, pan gâi'r sector wahoddiad i wneud cais am arian neu gyflwyno cynigion i'r Cynulliad roedd yn rhaid iddynt aros yn hir iawn cyn derbyn ymateb neu benderfyniad. Gallai hyn achosi problemau ariannol i'r mudiadau yn ogystal â phroblemau staffio, gan mai ar gontractau tymor byr y cedwir staff tra'n aros am benderfyniadau ar grantiau.

Roedd anghysondebau yn yr amser a roddwyd i'r sector gwirfoddol wneud cais am arian llithriant. Rhoddwyd iddynt amserlen glir a thua phedwar mis ar y cynllun Cychwyn Cadarn, ond dim ond deg diwrnod i wneud ceisiadau ar gyfer y rhaglen gofal plant.

Roedd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru wedi trafod problemau'r cylch ariannu gyda'r Cynulliad. Roedd hi'n bwysig bod y cylch ariannu'n iawn fel bod modd gwybod faint o arian fyddai ar gael cyn dechrau'r flwyddyn ariannol. Roedd ymddiriedolwyr mudiadau gwirfoddol mewn perygl os na ellid sicrhau arian.

Roedd staff y Cynulliad Cenedlaethol yn tueddu i symud yn gyflym o un swydd i'r llall, ond mae'n cymryd amser i unigolyn ddeall y materion a meithrin y berthynas angenrheidiol.

Er bod cynnydd yn cael ei wneud, nid oedd digon o gyfathrebu o hyd rhwng gwahanol adrannau'r Cynulliad lle'r oedd diddordebau'n gorgyffwrdd. Roedd hyn yn ddryslyd i gyrff allanol.

Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol fod yn ofalus nad yw rhaglenni a mentrau newydd yn dyblygu gwaith sydd eisoes ar y gweill ar lefel leol, ond eu bod yn hytrach yn cefnogi gwaith y gwasanaethau lleol. Roedd dyblygu gwaith yn ansefydlogi'r sector gwirfoddol ac yn bygwth swyddi.

Roedd twf cyfathrebu electronig yn ynysu'r adrannau hynny o'r gymuned nad ydynt yn gallu manteisio ar wybodaeth a gwasanaethau drwy ddulliau electronig. Byddai pobl o'r fath o dan anfantais neilltuol mewn perthynas â gwaith y Cynulliad.

Roedd hi'n bwysig bod y Cynulliad yn gwrando ar farn pobl ar lefel leol ac roedd y sector gwirfoddol yn sianel gyfathrebu allweddol.

Dywedodd **Richard Crawshaw** mai nod Fforwm Economaidd De Orllewin Cymru oedd hybu lles economaidd y rhanbarth. Gallai ddylanwadu ar bolisïau'r Cynulliad Cenedlaethol drwy fod mewn cysylltiad â Gweinidogion y Cynulliad neu drwy lobïo Aelodau Cynulliad lleol. Nid oedd unrhyw sicrwydd y byddai unrhyw aelod o'r Cabinet yn dod o'r rhanbarth a theimlai'r fforwm y dylai fod aelod yn y Cabinet sydd â chyfrifoldeb arbennig am y rhanbarth. Defnyddiwyd cyfrifoldeb Prif Weinidog Cymru dros Ogledd Cymru fel esiampl.

Awgrymodd **aelod o’r cyhoedd** bod angen i’r Cynulliad wneud mwy i gael plant i gymryd rhan mewn ymgynghoriad cyhoeddus. Byddai cynghorau ysgolion yn ffordd addas o wneud hyn a dylent fod yn orfodol.

Ymatebodd **Andrew Davies, y Trefnydd** i’r pwynt ynghylch diddordebau’n gorgyffwrdd rhwng adrannau drwy ddweud bod nifer o bwyllgorau cabinet a gweithgorau trawsbynciol wedi’u sefydlu, gan gynnwys un sy’n ymdrin â materion yn ymwneud â phlant. Dywedodd hefyd bod datganoli a sefydlu’r Cynulliad Cenedlaethol wedi golygu bod staff a oedd eisoes yn gweithio yno wedi gorfod wynebu newidiadau sylweddol, a bod nifer y staff wedi cynyddu. Roedd bron i 30 y cant o staff wedi ymuno â’r Cynulliad yn y ddwy flynedd diwethaf, a newidiodd 75% eu swyddi yn yr un cyfnod.

Roedd y Cabinet yn cydnabod fod angen edrych yn fanylach ar gael pobl ifanc i gymryd rhan ym mhrosesau’r Cynulliad.

Nid oedd yr **Aelodau’n** derbyn y byddai buddiannau’r rhanbarth yn cael eu hesgeuluso oni bai fod gan aelod o’r Cabinet gylch gwaith penodol ar gyfer y rhanbarth. Roedd Aelodau’r Cynulliad yn gallu cadw llygaid manwl ar y Cabinet a chyfrannu i’r gwaith o ddatblygu polisïau.

**Rôl y Pwyllgorau Rhanbarth**

Dywedodd **Louise Fleet** fod ymateb cymysg wedi bod oddi wrth swyddogion Cyngor Dinas a Sir Abertawe a fu’n cymryd rhan yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Rhanbarth. Roedd angen ddiffinio rôl y pwyllgorau rhanbarth yn gliriach. Dylid cyhoeddi’r camau a gymerwyd yn dilyn y cyfarfodydd.

Roedd canolfannau cymuned yn fannau cyfarfod mwy atyniadol a hygyrch na siambrau’r cyngor, ond dylai’r Pwyllgor brofi fod cael y cyhoedd i gymryd rhan yn y pwyllgorau yn fwy na dim ond sioe.

Dywedodd **Richard Crawshaw** y dylai’r pwyllgorau rhanbarth ganiatáu i fwy o grwpiau ar lawr gwlad wneud cyflwyniadau i’r pwyllgor. Roedd gan gyrff statudol a sefydliadau mwy gyfleoedd eraill i ddweud eu dweud wrth y Cynulliad.

Nid oedd hi’n glir sut yr oedd y pwyllgorau rhanbarth yn dylanwadu ar y Cynulliad, yn gyffredinol; dylai eu rôl fod yn gliriach. Dylent allu gosod eitemau yng Nghyfarfod Llawn y Cynulliad ac ar agendâu pwyllgorau pwnc. Dylai pwyllgorau pwnc ganiatáu amser i drafod adroddiadau’r pwyllgorau rhanbarth.

Dylid annog Gweinidogion i fynychu cyfarfodydd y pwyllgorau rhanbarth i gyd, nid dim ond y pwyllgorau o fewn eu rhanbarth eu hunain.

Roedd ymchwil **Kathryn Hollingsworth** yn mynd i’r afael â’r pedwar pwyllgor rhanbarth. Roedd gan y rhan fwyaf o’r bobl a holwyd ganddi agwedd bositif tuag at y pwyllgorau. Roedd hi’n hawdd i’r cyhoedd fynychu’r cyfarfodydd ac roedd modd i’r cyhoedd gymryd rhan.

Roedd pryder ynghylch effeithiolrwydd y pwyllgorau. Roedd angen dull ffurfiol o fwydo'r wybodaeth a gâi ei chrynhoi gan y pwyllgorau yn ôl i mewn i'r broses o wneud penderfyniadau. Dylai'r pwyllgorau weithio'n fwy clòs gyda'r pwyllgorau pwnc ac roedd yna bosibilrwydd y byddent yn cael ymwneud â'r gwaith o graffu ar y cyrff cyhoeddus.

Roedd yr amser ar gyfer gwneud cyflwyniadau i'r pwyllgor yn brin iawn a theimlai amryw o'r rheini a wnaeth gyflwyniadau fod gormod ohonynt i allu cynnal trafodaeth lawn ar y materion. Dylid cael trafodaeth â chyfle i'r cyflwynydd gael holi'r pwyllgor a gwneud sylwadau ar farn yr aelodau.

Cytunai Ms Hollingsworth gyda Fforwm Economaidd De Orllewin Cymru y dylai'r pwyllgorau rhanbarth ganolbwyntio ar sefydliadau lleol, a mudiadau gwerin gwlad. Hyd yn oed pe bai'r pwyllgorau pwnc yn teithio o amgylch Cymru ni fyddent yn cael cyfle i siarad â phobl sy'n gweithio ar lawr gwlad.

Beirniadwyd cynllun eistedd y pwyllgor. Yn aml roedd cyflwynwyr â'u cefnau at yr oriel gyhoeddus. Byddai trefniant hanner cylch yn well.

Er lles y cyhoedd, dylai aelodau a chyflwynwyr beidio â defnyddio jargon a dylai aelodau ymatal rhag ffraeo gwleidyddol rhwng pleidiau.

Ar y cyfan roedd y sesiynau meic agored, lle'r oedd y cyhoedd yn cael gofyn cwestiwn i aelodau, yn plesio, er bod rhai'n anfodlon nad oedd atebion cynhwysfawr yn cael eu rhoi mewn cyfarfodydd, er eu bod yn cael eu hateb wedi hynny.

Dylid gwario mwy o arian ar roi cyhoeddusrwydd mwy effeithiol i'r cyfarfodydd. Nid oedd y cyhoedd yn ymwybodol bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal.

Teimlai rhai **Aelodau** nad oedd y pwyllgorau rhanbarth eto wedi darganfod eu rôl ac y gallent weithio'n fwy clòs â phwyllgorau pwnc. Cwestiynodd un neu ddau eu gwerth.

**Materion eraill a gafodd eu codi**

Roedd **Cyngor Dinas a Sir Abertawe**'n teimlo y dylai cyfarfodydd Cabinet y Cynulliad gael eu cynnal yn gyhoeddus fel y gwneir mewn rhai awdurdodau lleol sy'n mynd i'r afael ag agenda moderneiddio. Roedd awdurdodau lleol hefyd yn profi gwahanol ddulliau o ddatblygu polisi a gallai'r rhain fod yn berthnasol i'r Cynulliad.

Roedd yna deimlad fod trafodaethau'r cyfarfodydd llawn yn annherfynol, heb benderfyniad na chanlyniad.

Dylai'r Cynulliad wneud gwell defnydd o adnoddau fideo-gynadledda sydd gan awdurdodau lleol erbyn hyn.

Roedd angen crisialu swyddogaethau a statws aelodau etholaethol ac aelodau rhanbarthol. Ni ddylai Aelodau'r Cynulliad gael aelodaeth ddeuol ar gynghorau lleol, ac ni ddylai Aelodau'r Cynulliad gymryd rhan mewn materion lleol. Dylent ganolbwyntio ar faterion ar lefel strategol genedlaethol.

Dywedodd **Aelodau** nad oedd gwahaniaeth mewn statws a rôl rhwng Aelodau Cynulliad etholaethol neu ranbarthol. Nodwyd bod gwahaniaeth rhwng bod yn Aelod Cynulliad sydd hefyd yn gynghorydd lleol rhan amser, a bod yn Aelod Seneddol llawn amser. Roedd gan Aelodau Cynulliad rôl bwysig iawn i'w chwarae mewn materion lleol ac yn aml roeddent mewn sefyllfa well na chynghorwyr lleol i fod yn ganolwyr a datrys problemau ar ran eu hetholwyr. Ar yr un pryd roedd y Cynulliad wedi cyflwyno nifer o strategaethau ar gyfer Cymru gyfan.

Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor

Mai 2001